

Cysylltu pobl a lleoedd | 2

Cyngor Sir Ddinbych – defnyddio UPRN i ddiogelu cyllid a gwella amodau tai tenantiaid

Defnyddiodd Cyngor Sir Ddinbych Gyfeirnodau Eiddo Unigryw (UPRN) i asesu effaith newidiadau o ran deddfwriaeth Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ar eiddo rhent preifat yn yr ardal.

Newidiodd y rheoliadau sy'n ymwneud ag eiddo rhent preifat a pherfformiad ynni ar 1 Ebrill 2018. Rhaid darparu Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer pob tŷ a gaiff ei adeiladu, ei werthu, neu ei rentu bellach. Rôl Tystysgrif Perfformiad Ynni yw nodi ffyrdd y mae eiddo yn arbed neu wastraffu ynni thermol – ei effeithlonrwydd ynni perthynol.

Rhaid i landlordiaid a pherchnogion eiddo sicrhau bod eu heiddo yn bodloni'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol hyn. I annog unrhyw welliannau sydd eu hangen, bydd rhoi neu barhau tenantiaethau presennol yn cael ei gyfyngu os oes gan eiddo rhent Dystysgrif Perfformiad Ynni F neu G.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych am wella amodau tai ei breswylwyr drwy sicrhau bod ei landlordiaid lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd hon. Roedd hefyd am weld a allai sicrhau cyllid ar gyfer gwelliannau sydd eu hangen i'r eiddo hynny, am gost isel neu ddim cost o gwbl i'r landlordiaid neu i'r awdurdod. I gyflawni hyn, roedd angen i'r cyngor newid a gwella'r ffordd roedd yn asesu'r eiddo hyn.

Roedd UPRN wedi darparu'r cyswllt awdurdodol rhwng eiddo landlordiaid a Data Tystysgrif Perfformiad Ynni. O ganlyniad, sicrhodd Sir Ddinbych gyllid ar gyfer £377,650 o welliannau i'r eiddo hynny.




Cysylltu UPRN

Gwnaeth Sir Ddinbych gyfateb UPRN eiddo rhent yn yr ardal gyda data a gafwyd gan Rhentu Doeth Cymru - awdurdod trwyddedu canolog sy'n prosesu cofrestrïadau landlordiaid, ac sydd wedyn yn rhoi trwyddedau i landlordiaid ac asiantwyr sydd angen cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014.

Trwy gyfateb UPRN i'r data hwnnw, gellid mapio dwysedd a dosbarthiad eiddo rhent yn gywir mewn ffordd a oedd yn sicrhau ei fod yn hawdd i'w ddeall. Gellid nodi eiddo rhent nad oedd yn bodloni'r rheoliadau newydd yn gyflym.

Yna cafodd y canlyniadau eu cysylltu â'r data Personau Cymwys fel bod modd i swyddogion nodi pa fesurau effeithlonwydd ynni sydd angen eu gwella.

Roedd y broses hon yn galluogi Cyngor Sir Ddinbych i ysgrifennu polisi Cymhwysedd Hyblyg Awdurdod Lleol awdurdodol a oedd yn sicrhau cyllid ar gyfer £377,650 o welliannau i'r eiddo hyn dan y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.



Mae UPRN yn nodi eiddo rhent yn yr ardal

Cyflwyno canlyniadau

Y prif ganlyniad oedd cipolwg ar eiddo rhent a oedd yn amlygu pa landlordiaid a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau eisoes, pa landlordiaid nad oeddent wedi cofrestru dan Ddeddf Tai Cymru (2014) eto, a pha eiddo rhent nad oedd â Thystysgrif Perfformiad Ynni digonol.

Gwnaeth y canlyniadau cyntaf amlygu 450 o eiddo rhent preifat gyda sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o F a 198 o eiddo rhent preifat gyda sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o G. O'r rhain, roedd 286 angen inswleiddiad atig ac roedd 383 angen inswleiddiad wal.

Gyda'r rhestr awdurdodol honno, roedd Cyngor Sir Ddinbych yn gallu sicrhau cyllid gyda gwerth cyfalaf o tua £377,650 gan ddarparu'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Roedd hyn yn golygu y gallai amodau tai yr holl denantiaid hyn gael eu gwella am gost isel neu ddim cost o gwbl i'r landlordiaid.



Mae data Tystysgrif Perfformiad Ynni wedi'i gysylltu'n awdurdodol, yn fanwl